DATGANIAD I'R WASG **1 TACHWEDD 2011**

Siapwch hi i siopa!

Cig Oen Mynyddoedd Cambrian yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf ar sianel siopa ar y teledu!

Ddydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011 bydd Cig Oen Mynyddoedd Cambrian yn cael ei werthu am y tro cyntaf ar QVC, sef prif sianel siopa'r DU. Bydd y blychau o wahanol ddarnau o gig oen Cymreig ffres yn cael eu gwerthu ar yr awyr a thrwy wefan y sianel. Caiff y cig oen ei gynhyrchu gan grŵp o ffermwyr sy'n rhan o fenter wledig a gefnogir gan EUB Tywysog Cymru, ac sy'n cydymffurfio â safonau llym o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid er mwyn cynhyrchu cig sydd o ansawdd eithriadol o uchel.

Yn cymryd rhan yn y sioe goginio awr o hyd, a fydd yn fyw ar yr awyr o 1pm ymlaen ar 8 Tachwedd, y bydd cogydd enwog Mynyddoedd Cambrian, sef Rhodri Edwards o'r Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn ger Aberystwyth, a Gareth Rowlands (ffermwr ac un o sylfaenwyr Rachel's Dairy) sy'n un o Gyfarwyddwyr Cwmni Mynyddoedd Cambrian.

Yn ystod y sioe fyw ar QVC, bydd Rhodri yn temtio'r gwylwyr ag ystod o ryseitiau blasus ar gyfer amryw ddarnau bendigedig o gig oen – o Gawl Cymreig traddodiadol i *tagine* cig oen Morocaidd. Bydd seigiau eraill yn cynnwys coes wedi'i sesno â pherlysiau i'w rhostio, golwythion lwyn gyda llysiau rhost, a ffiled gwddf gyda saws o win coch a chwrens coch. Caiff y cig oen ei gynhyrchu'n naturiol gan grŵp o 21 o deuluoedd traddodiadol sy'n ffermio'r mynyddoedd, ac mae'n gynnyrch o ansawdd eithriadol sy'n rhwydd i'w baratoi.

Mae Rhodri hefyd yn un o grŵp o Lysgenhadon Twristiaeth Mynyddoedd Cambrian a benodwyd yn ddiweddar gan EUB Tywysog Cymru i helpu i hyrwyddo twristiaeth o safon yn y rhanbarth. Yn ddiweddar dewiswyd bwyty Rhodri a'i wraig, Esther, fel y lle gorau i gael cinio dydd Sul ynddo yng Nghymru.

Drwy gydol y rhaglen bydd Gareth Rowlands yn esbonio beth yw Menter Mynyddoedd Cambrian a'r modd y mae'r ffermwyr wedi dod at ei gilydd i godi safonau a marchnata eu cynnyrch. Mae'r Fenter, y mae Tywysog Cymru yn Llywydd iddi, yn helpu i gynnal cymunedau gwledig a ffermydd traddodiadol yr ucheldir. Mae logo brand 'Mynyddoedd Cambrian Mountains' hefyd yn cynnwys llun dyfrlliw a baentiwyd gan y Tywysog o Gwm Berwyn ger Tregaron.

Mae gan QVC 8 miliwn o gwsmeriaid ar gyfartaledd, ac 20 miliwn o wylwyr y flwyddyn.

Meddai Rheolwr Busnes Cwmni Mynyddoedd Cambrian, Deanna Leven: “Mae hwn yn gyfle gwych i arddangos Cig Oen Mynyddoedd Cambrian, ac mae’n cynnig cyfle i filoedd o wylwyr yn y DU brynu’r cig pur, mwyaf blasus o galon Cymru. Mae hefyd yn ffordd wych o godi proffil yr ardal a thynnu sylw at y modd y mae’r fenter wedi helpu i ychwanegu gwerth go iawn at gynnyrch ffermwyr lleol. Y gobaith yw y bydd hwn yn ddechrau perthynas barhaus â QVC i werthu cig oen a chynnyrch arall Mynyddoedd Cambrian yn y dyfodol.”

DIWEDD

I gael rhagor o wybodaeth am Fenter Mynyddoedd Cambrian, cysylltwch â:

Deanna Leven (Rheolwr Busnes Menter Mynyddoedd Cambrian)

Ffôn: 01970 639 410

Ebost Deanna@cambrianmountains.co.uk

Gwefan: www.cambrianmountains.co.uk

NODIADAU I OLYGYDDION

- Mae Menter Mynyddoedd Cambrian yn brosiect eang sy’n ceisio helpu i hyrwyddo mentergarwch mewn cymunedau gwledig, gwarchod yr amgylchedd ac ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwasanaethau yng nghanolbarth Cymru.
- Bydd rhaglen Cig Oen Mynyddoedd Cambrian yn cael ei darlledu’n fyw am 1pm ddydd Mawrth, 8 Tachwedd 2011. Mae QVC ar gael ar Sky 640, Freeview 16, Virgin TV 740, Freesat 800.
- Bydd QVC yn cyfyngu’r cynnig i 400 blwch o hanner oen ar gyfer y rhaglen, a bydd y cig oen wedi’i baratoi ar gyfer 2 wahanol arddull coginio. Bydd y blwch ‘Traddodiadol’ yn cynnig mwy o ddarnau i’w rhostio, gan gynnwys coes gyfan ac ysgwydd flaen heb yr asgwrn wedi’i rholio, a bydd y blwch ‘Bywyd Hawdd’ yn cynnwys mwy o ddarnau i’w grilio, megis cytledau a medaliynau o ffiled gwddf, ac yn darparu ar gyfer teuluoedd sydd am gael darnau llai o gig.
- Mae’r holl ryseitiau a fydd yn rhan o’r sioe i’w gweld ar wefan Menter Mynyddoedd Cambrian, www.cambrianmountains.co.uk